



**CYNGOR BWRDEISTREF SIRIOL CONWY
CYFARWYDDIAETH GOFAL CYMDEITHASOL
A GWASANAETHAU TAI
FFURFLEN GAIS AR GYFER PEIDIO TALU**

Darllenwch y nodiadau isod, os gwelwch yn dda. Os byddwch wedyn eisiau gwneud cais am gael talu llai neu beidio talu o gwbl, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. Cwestiwn 4 yw'r un pwysicaf. Rydym angen cymaint o wybodaeth â phosibl am faint sydd gennych i'w wario. Defnyddiwch ddalen ychwanegol o bapur i roi'r manylion os bydd angen.

Nodiadau i'ch cynorthwyo:

Cyfrifwyd yr asesiad o uchafswm eich cyfraniad tuag at gost eich gwasanaethau yn ôl eich incwm a'ch cyfalaf, sef y ffigwr mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrifo y gallwch ei fforddio bob wythnos.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallech wynebu problemau ariannol penodol sy'n ei gwneud yn anodd i chi fedru fforddio talu. Os yw hyn yn berthnasol i chi, dylech lenwi'r ffurflen hon a gofyn am gael gostwng eich taliadau neu beidio gorfod talu o gwbl.

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar ganllawiau polisi sy'n datgan sut y dylem benderfynu a ddylid gostwng taliadau, neu beidio codi tâl o gwbl. Dyma grynodedb ohonynt:

- dim ond o dan **amgylchiadau eithriadol** y caiff taliadau eu gostwng neu y penderfynir nad oes bod angen talu o gwbl
- rhaid i'ch amgylchiadau fod yn **eithriadol o'u cymharu â rhai pobl eraill sy'n defnyddio'r un gwasanaeth**
- byddech yn dioddef **caledi ariannol** pe bai'n rhaid i chi dalu
- os oes **amgylchiadau teuluol eraill sy'n achosi caledi**, gellir cymryd y rheiny i ystyriaeth
- * Os byddwch angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu eich Swyddfa Cyngor ar Bopeth leol.

1. Enw a chyfeiriad yr un sy'n derbyn Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol

Enw:

Cyfeiriad:

.....

2. Ydych chi'n gofyn am gael peidio talu o gwbl neu gael talu llai? Os ydych yn gofyn am gael talu llai, dywedwch faint yn llai.

3. Pam ydych chi'n gofyn am gael talu llai neu beidio talu o gwbl? Hefyd nodwch os yw'n gais i beidio talu dros dro neu'n gais parhaol?

4. A oes amgylchiadau eraill yn eich teulu sy'n achosi costau ychwanegol a chaledi ariannol e.e. angen diet arbennig? Dywedwch wrthym amdanynt.

5. Llenwch y datganiad ariannol isod gan roi manylion eich incwm ac amcangyfrif o'ch gwariant. Mae angen i'r gwariant gynnwys unrhyw gostau ychwanegol sydd gennych sy'n ymwneud ag anabledd. Cofiwch ein bod angen cymaint o wybodaeth ag y bo modd i'n cynorthwyo i wneud penderfyniad.

Manylion Incwm	Wythnosol £	Misol £	Gwybodaeth Ychwanegol
Credyd Pensiwn a Warantwyd			
Credyd Cynilion Pensiwn			
Pensiwn Ymddeoliad Gwladol			
Cymhorthdal Incwm			
Lwfans Cymorth Cyflogaeth			
Lwfans Ceisio Gwaith			
Cydran Gofal Lwfans Byw i'r Anabl			
Cydran Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl			
Lwfans Gweini			
Pensiwn Galwedigaethol/Pensiwn Preifat			
Unrhyw Fudd-daliadau Eraill			

Manylion Incwm (parhad)	Wythnosol £	Misol £	Gwybodaeth Ychwanegol
Cyfanswm Eich Cyfalaf			
Enillion			
Unrhyw Incwm Arall (Nodwch pa fath)			

Gwariant	Wythnosol £	Misol £	Gwybodaeth Ychwanegol
Treth y Cyngor (ar ôl Budd-dal Treth y Cyngor)			
Rent (ar ôl Budd-dal Tai)			
Taliad Morgais			
Biliau Dŵr			
Nwy / Trydan / Olew			
Ffôn (llinell sefydlog a ffôn symudol)			
Yswiriant (nodwch pa fath)			
Bwyd a phethau ymolchi			
Papurau newydd			
Deunydd glanhau			
Golchdy			
Golchi dillad			
Dillad ac esgidiau			
Cludiant / teithio / petrol			
Costau teledu neu loeren			
Trwydded deledu			
Catalog			
Deintydd			
Costau Anifeiliaid Anwes			
Ad-daliad Cronfa Gymdeithasol (gyda'r dyddiad ad-dalu)			

Manylion Gwariant (parhad)	Wythnosol £	Misol £	Gwybodaeth Ychwanegol
Gwneud taliad cynhaliaeth yn unol â chyfarwyddyd y Llys			
Ad-dalu benthyciad (gyda dyddiad ad-dalu'r Benthyciad)			
Dirwyon			
Ad-dalu unrhyw ddyledion eraill (rhowch fanylion)			
Unrhyw wariant arall (rhowch fanylion)			

6. A yw eich gwariant ychwanegol yn debygol o newid yn y dyfodol? Rhowch fanylion.

Rwy'n dymuno gwneud cais am gael talu llai neu beidio talu o gwbl.

Llofnod:

Dyddiad:

Beth sy'n digwydd rŵan:

Llofnodwch y ffurflen hon a'i hanfon yn ôl at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos, LL28 4UL.

Bydd Panel Peidio Codi Tâl yn ystyried eich cais. Rhagwelir y byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o'ch cais o fewn 28 diwrnod gwaith ac yn derbyn ymateb mor fuan â phosibl ar ôl cyfarfod y Panel Peidio Codi Tâl. Y penderfyniadau a allai gael eu gwneud ganddynt yw peidio codi tâl o gwbl, gostwng y taliad neu ohirio'r taliad neu godi'r taliad yn llawn.

Os ydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad a wneir gallwch Apelio yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad at Jenny Williams, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos, LL28 4UL.